**Rhif: WG30632**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Diwygiadau i Reoliadau sy'n ymwneud â Rhan 4 y Ddeddf (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 y Ddeddf (gosod ffioedd ac asesiad ariannol)

Dyddiad cyhoeddi: 21 Rhagfyr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 25 Ionawr 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Nod yr ymgynghoriad hwn yw cael eich barn ar set o reoliadau diwygiedig sy'n cyflwyno newidiadau i dair set o brif reoliadau sy'n rheoli'r ffioedd a osodir gan awdurdodau lleol am ofal cymdeithasol a chymorth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn amlinellu'r newidiadau cyfatebol i'r cod ymarfer a wnaed dan y Ddeddf sy'n cefnogi'r prif reoliadau. |
| **Sut i ymateb** | Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad sydd ar gefn y ddogfen hon, erbyn y dyddiad cau, a'i dychwelyd trwy'r post at:<br><br>Alison James<br>Talu am Ofal<br>Is-adran Partneriaethau a Chydweithredu<br>Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio<br>Llywodraeth Cymru<br>Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Fel arall, gellir cael y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ein gwefan https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/consultations/search/?f[0]=im_field_state%3A1&f[1]=im_field_topics%3A21 a'i dychwelyd atom drwy e-bost i: consultationonchargingchanges@wales.gsi.gov.uk |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol** | Gellir cael y ddogfen hon ar ffurf dogfen MS Word, mewn print bras, yn Saesneg ac mewn fersiynau eraill yn ôl y gofyn.<br><br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted<br><br>Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1844/pdfs/wsi_20151844_mi.pdf<br><br>Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1843/pdfs/wsi_20151843_mi.pdf<br><br>Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1840/pdfs/wsi_20151840_mi.pdf<br><br>Rhan 4 a 5 o'r Cod Ymarfer (Codi Ffioedd ac Asesiad Ariannol): http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt45cy.pdf |

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Cyfeiriad:<br>Alison James<br>Talu am Ofal<br>Is-adran Partneriaethau a Chydweithredu<br>Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio<br>Llywodraeth Cymru<br>Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: consultationchargingchanges@wales.gsi.gov.uk<br><br>ffôn: Caerdydd (029) 2082 6946 |
| **Diogelu Data** | Sut bydd y farn a'r wybodaeth y byddwch chi yn eu rhoi i ni yn cael eu defnyddio<br><br>Bydd unrhyw ymateb y byddwch chi yn ei roi i ni yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad. Gallai hefyd gael ei weld gan aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau i ddod.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn ni hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych eisiau i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, nodwch hynny yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn hepgor y manylion hyn.<br><br>Gallai enwau neu gyfeiriadau a gaiff eu hepgor gennym gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach o hyd, ond nid ydym yn credu y byddai hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Pe bai rhywun yn gofyn am gael gweld gwybodaeth yr ydym wedi'i chadw yn ôl, bydd rhaid i ni benderfynu a ddylem ei rhyddhau neu beidio. Os oes rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae hon yn ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Ond weithiau, efallai bod rhesymau pwysig dros bam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, hyd yn oed os yw wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn ei farn cyn gwneud penderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth. |

## Yr ymgynghoriad hwn

Nod yr ymgynghoriad hwn yw cael eich barn ar set o reoliadau diwygiedig drafft y bwriedir eu gwneud sy'n cyflwyno nifer o newidiadau i dair set o brif reoliadau sydd mewn grym. Mae'r prif reoliadau hynny'n rheoli ffioedd a godir gan awdurdodau lleol am ofal cymdeithasol a chymorth a gwnaethpwyd y rhain dan Ran 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (gosod ffioedd ac asesiad ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"). O ganlyniad i'r newidiadau hyn, bydd hefyd angen diwygio'r adrannau cyfatebol o'r cod ymarfer a wnaed dan y Ddeddf sy'n cefnogi'r rheoliadau.

Gwneir y prif reoliadau dan yr adrannau priodol o'r Ddeddf. Cyhoeddir y cod ymarfer dan adran 145 o'r Ddeddf, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi codau ymarfer i awdurdodau lleol ar gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Nodir yr hyn a ystyrir yn swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn Atodlen 2 i'r Ddeddf.

## Lle'r ydym ni ar hyn o bryd?

Mae'r Ddeddf yn ffurfio sylfaen fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen: y Ddeddf ei hun; rheoliadau a wneir dan y Ddeddf, a; chodau ymarfer/canllawiau statudol a wneir dan y Ddeddf. Mae'r tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y mae gofal cymdeithasol yn gweithio o'i fewn. Daeth y rheoliadau, y codau a'r canllawiau statudol dan y Ddeddf i rym ar 6 Ebrill 2016.

O ran asesu ariannol a gosod ffioedd, cafodd pum set o reoliadau eu gwneud dan Ran 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (gosod ffioedd ac asesiad ariannol) o'r Ddeddf gydag un cod ymarfer. Daeth y rhain i rym ar 6 Ebrill 2016. Rhoddwyd dolenni i'r Ddeddf, y tair set o reoliadau a effeithir gan yr ymgynghoriad hwn a'r cod yn gynt yn y ddogfen hon.

Mae'r Ddeddf yn rhoi caniatâd i awdurdodau lleol ddefnyddio'u doethineb, mewn amgylchiadau penodol, i osod ffioedd ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn caniatáu iddynt ddefnyddio'u doethineb i osod ardoll ar ad-daliadau neu gyfraniadau ar gyfer derbyn taliadau uniongyrchol. Mae'r rheoliadau a'r cod yn darparu fframwaith clir y mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu o'i fewn a lle maen nhw'n defnyddio'r doethineb hwn. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd megis pobl a gofal lle na ellir codi tâl, y gofynion sy'n rheoli asesiadau ariannol a phennu ffi, ad-daliad neu gyfraniad, a'r uchafswm y gellir ei godi am y rhain mewn amgylchiadau penodol.

## Y dystiolaeth o blaid newid

Ers i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith, mae nifer o newidiadau wedi'u cynnig i'w threfniadau presennol. Daw hyn yn sgil rhaglen bum mlynedd newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer ymrwymiadau'r Llywodraeth, "Symud Cymru Ymlaen", yr angen i wneud diweddariadau amrywiol eraill a'r angen i wneud

nifer o ddiwygiadau technegol. O ganlyniad, cyflwynir y newidiadau arfaethedig canlynol, gyda phob un yn dod i rym o 10 Ebrill 2017:

Ymrwymiadau Llywodraeth Cymru

O dan raglen lywodraethu “Symud Cymru Ymlaen”, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud dau ymrwymiad allweddol sy’n effeithio ar osod ffioedd ar gyfer gofal cymdeithasol, sef:

- cynyddu’r terfyn cyfalaf fel y mae’n berthnasol i godi ffioedd am ofal preswyl

Yr ymrwymiad cyntaf yw mwy na dyblu’r terfyn cyfalaf o ran codi ffioedd am ofal preswyl, o’i lefel bresennol o £24,000 i £50,000. Defnyddir y terfyn cyfalaf i bennu a yw unigolyn yn hunan-ariannu cost lawn y gofal preswyl neu a yw’n cael cymorth ariannol tuag at y gost hon gan ei awdurdod lleol. Bydd y cynnydd hwn yn galluogi pobl sydd angen gofal preswyl i gadw mwy o’u cyfalaf heb orfod ei ddefnyddio i dalu am ofal o’r fath. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflwyno’n raddol a bydd yn dechrau o fis Ebrill 2017 ymlaen pan fydd y terfyn cyfalaf yn cynyddu o’i lefel bresennol o £24,000 i £30,000. Cafodd y penderfyniad i gyflwyno hyn yn raddol ei wneud ar ôl trafod â rhanddeiliaid. Barnwyd mai dyma’r ffordd orau gan y byddai modd mesur beth yw effaith y cynnydd o ddydd i ddydd ar awdurdodau lleol a darparwyr cartrefi gofal yn ystod y flwyddyn gyntaf. Bydd mwy o gynnydd yn cael ei gyflwyno mewn blynyddoedd i ddod;

- Anwybyddu’r Pensiwn Anabledd Rhyfel (WDP) yn llwyr wrth gynnal asesiadau ariannol ar gyfer gosod ffioedd am ofal a chymorth

Yr ail ymrwymiad yw anwybyddu’r WDP yn llwyr mewn asesiadau ariannol. O dan y rheoliadau presennol, gall unigolyn gadw hyd at £25 yr wythnos o unrhyw daliad WDP y bydd yn ei gael, a bydd yr hyn sy’n weddill yn cael ei ystyried wrth asesu ffioedd. Bydd yr ymrwymiad hwn yn galluogi unigolyn i gadw gwerth llawn unrhyw daliad WDP y mae’n ei gael ac ni fydd mwyach yn gorfod defnyddio unrhyw ran o’r taliad hwn tuag at gost ei ofal cymdeithasol. Gall hyn fod yn ofal preswyl neu’n ofal dibreswyl;

cynyddu’r ffi wythnosol fwyaf y gellir ei gosod am ofal a chymorth dibreswyl

Ar hyn o bryd, codir ffi uchaf o £60 yr wythnos mewn perthynas â chodi ffi am ofal a chymorth dibreswyl. Felly, ni ellir gofyn i’r rheini sy’n cael gofal o’r fath dalu mwy na hyn mewn wythnos am y gofal a’r cymorth dibreswyl sydd eu hangen arnynt. Cyflwynwyd y gofyniad hwn er mwyn mynd i’r afael â’r amrywiad eang o ran y ffioedd yr oedd yr awdurdodau lleol yn arfer eu codi am ofal o fath a lefel debyg.

Fodd bynnag, bydd lefel bresennol yr uchafswm wedi bod ar waith am ddwy flynedd erbyn mis Ebrill 2017. O ganlyniad, er mwyn cadw’n gyson â chwyddiant a galluogi awdurdodau lleol i gynnal lefel ac ansawdd y gofal yn wyneb pwysau ariannol cynyddol, cred Gweinidogion Cymru a nifer o randdeiliaid mai hwn yw’r amser priodol i gynyddu’r lefel hon. Mae’r pwysau ariannol yn cynnwys effaith cynlluniau megis y cyflog byw cenedlaethol ar

sector lle mae cyflogau yn tueddu i fod yn isel.. O ganlyniad, bydd y ffi uchaf a godir am ofal a chymorth dibreswyl yn cynyddu i £70  yr wythnos o fis Ebrill 2017.

Bydd lefel y ffi uchaf ar gyfer 2018-19 a thu hwnt yn ffurfio rhan o'r trefniadau gosod ffioedd ar gyfer y dyfodol. Byddwn, felly, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar wahân yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn trafod y lefel fwyaf mewn blynyddoedd i ddod, a disgwylir y bydd yn cyrraedd £100 yr wythnos erbyn diwedd tymor y Llywodraeth Cymru hon yn 2021-22;

cynyddu'r swm incwm lleiaf (MIA) a osodir wrth godi ffioedd am ofal preswyl

Yr MIA yw'r swm o arian y gall unigolyn mewn gofal preswyl, a gaiff ei gefnogi'n ariannol gan ei awdurdod lleol, ei gadw o'i incwm wythnosol i'w wario fel ag y myn. Ni ellir ei ddefnyddio i dalu am unrhyw agwedd ar ofal a chymorth asesedig unigolyn. Caiff lefel yr MIA ei hadolygu bob blwyddyn yn ôl y cynnydd blynyddol a wneir gan Lywodraeth y DU i bensiynau gwladol a budd-daliadau lles. O ganlyniad i ystyriaeth Gweinidogion Cymru, cynigir cynyddu'r MIA o £26.50 yr wythnos i £27.50 yr wythnos o 10 Ebrill 2017;

diwygiadau technegol

Mae angen diwygio'r rheoliadau sy'n ymwneud â gosod ffioedd, lle y mae'r gair "non" yn ymddangos yn amhriodol mewn un adran. Hefyd, mae angen i'r rheoliadau egluro'r sefyllfa yn well o ran gosod ffioedd ar ôl ailasesu ffioedd unigolyn. Ni chaiff hyn ei ddisgrifio'n glir yn y rheoliadau ar hyn o bryd. Yn olaf, mae angen egluro yn y rheoliadau sy'n ymwneud â rheoli dewis o lety (h.y. dewis o gartref gofal) na fwriadwyd i'r trefniadau ar gyfer hyn fod yn berthnasol i arosiadau byr (h.y. y rheini hyd at wyth wythnos). Yn hytrach, roeddent yn berthnasol i sefyllfaoedd lle'r oedd aros yn drefniant dros dro (h.y. hyd at 52 wythnos) neu'n barhaol.

## Y cynigion

Mae'r newidiadau uchod yn arwain at y rheoliadau diwygiedig drafft sydd wedi'u hatodi. Bwriedir cyflwyno'r rhain gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynnar y flwyddyn nesaf er mwyn iddynt ddod i rym ar 10 Ebrill 2017. Mae'r rhain yn cyflwyno'r newidiadau canlynol i'r rheoliadau presennol a'r cod ymarfer:

**Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015**

- cyflwyno diwygiad i egluro nad yw'r trefniadau o ran dewis llety yn berthnasol i leoliad y mae awdurdod lleol yn ei wneud mewn cartref gofal sy'n arhosiad byr. Caiff cyfnodau aros o'r fath eu diffinio yn y rheoliadau fel arhosiad am gyfnod nad yw'n hirach nag wyth wythnos;

- bydd angen newid y cod yn sgil hyn i gyflwyno'r un diwygiad ym mhennod 10 "Dewis o Lety" ac Atodiad C "Dewis o Lety a Chostau Ychwanegol";

**Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015**

- cynyddu'r ffi uchaf sy'n berthnasol i ofal a chymorth dibreswyl i £70 yr wythnos;
- cywiro camgymeriad i gael gwared â'r gair "non" a gafodd ei osod yn amhriodol yn y set wreiddiol o reoliadau;
- cynyddu lefel y swm incwm lleiaf a ddefnyddir wrth godi ffioedd am ofal preswyl i £27.50 yr wythnos;
- newid i ddisgrifio'r sefyllfa yn fwy cywir o ran gosod ffioedd ar ôl ailasesu ffioedd unigolyn a gallu awdurdod lleol i ôl-ddyddio ffioedd mewn sefyllfaoedd penodol;
- cynyddu'r terfyn cyfalaf sy'n ymwneud â chodi ffioedd am ofal preswyl i £30,000. Bydd y lefel bresennol o £24,000 yn parhau i fod yn berthnasol o ran codi ffioedd am ofal a chymorth dibreswyl;
- newid i'r cod ym mhennod 5 "Materion Cyffredin o ran Codi Ffi" ac Atodiad A "Trin Cyfalaf" i amlygu'r gwahanol derfyn cyfalaf o ran codi ffioedd am ofal preswyl a chodi ffioedd am ofal dibreswyl;

**Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015**

- cyflwyno diwygiad i anwybyddu'n llwyr unrhyw bensiwn anabledd rhyfel y mae unigolyn yn ei gael wrth gynnal asesiad ariannol neu osod unrhyw fath o ffioedd am ofal cymdeithasol a chymorth;
- bydd angen gwneud newid tebyg i'r cod yn Atodiad B, "Trin Incwm".

## Dogfennau ymgynghori

Gofynna'r ymgynghoriad hwn am eich barn ar y rheoliadau diwygiedig drafft erbyn **25 Ionawr 2017.** Atodir y rhain yn Atodiad A. Gellir cael ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i gyflwyno'r rhain yn Atodiad B.

Atodiad B

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

<table>
<tr><td colspan="4"><h1>Codi ffi am ofal a chymorth – terfyn cyfalaf</h1></td></tr>
<tr><td colspan="4">Bydd y terfyn cyfalaf o ran codi ffi am ofal preswyl yn cynyddu i £30,000 o fis Ebrill nesaf ymlaen. Mae hyn yn rhan o ddull graddol o gyflawni'r ymrwymiad i gynyddu'r terfyn hwn i £50,000.<br><br>1. A ydych yn dymuno tynnu sylw Llywodraeth Cymru at unrhyw ganlyniadau posibl i'r penderfyniad i godi'r terfyn cyfalaf?</td></tr>
<tr><td>Ydw</td><td>☐</td><td>Nac ydw</td><td>☐</td></tr>
<tr><td colspan="4">A fyddech cystal â disgrifio'r canlyniadau hynny ac unrhyw gamau lliniaru yr ydych yn credu y byddai eu hangen.</td></tr>
</table>

## Asesiad ariannol ar gyfer gofal a chymorth – anwybyddu'r pensiwn anabledd rhyfel yn llwyr

Bydd anwybyddu'r pensiwn anabledd rhyfel yn llwyr yn sicrhau y gall cyn-filwyr sy'n cael y pensiwn hwn, waeth faint y maen nhw'n ei gael, ddiogelu ei werth lawn o'r ffioedd i'w ddefnyddio fel y mynnant.

**2. A oes gennych unrhyw sylwadau am y penderfyniad i anwybyddu'r pensiwn rhyfel yn llwyr?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ |

Defnyddiwch y lle hwn i wneud unrhyw sylwadau a fo gennych.

## Asesiad ariannol ar gyfer gofal a chymorth – ffi wythnosol uchaf

Mae'r ffi uchaf yn sicrhau cysondeb ledled Cymru o ran y swm wythnosol uchaf y gofynnir i unigolyn ei dalu am ei ofal dibreswyl. Mae hyn yn mynd i'r afael â'r amrywiad eang o ffioedd yr oedd awdurdodau lleol yn eu codi yn flaenorol am ofal tebyg ar lefel debyg. Mae oddeutu un rhan o dair o'r rheini sy'n cael gofal dibreswyl yn talu'r swm uchaf. Mae'r gweddill yn cael eu gofal am ddim neu am ffi hyd at yr uchafswm o ganlyniad i'w lefel incwm wythnosol. Bydd y ffi uchaf yn cynyddu i £70 yr wythnos o fis Ebrill nesaf ymlaen oherwydd chwyddiant ac i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o arian i gynnal y gofal y maen nhw'n ei ddarparu ac ansawdd y gofal hwn.

**3. A ydych chi'n cytuno bod y cynnydd hwn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng helpu i greu mwy o incwm i awdurdodau lleol (i'w helpu i ymdopi â'r pwysau cost cynyddol o ran darparu gofal a sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir) a chodi tâl teg a fforddiadwy ar bobl sy'n cael gofal dibreswyl?**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |

Eglurwch eich ateb, a rhowch wybod inni hefyd a oes unrhyw gamau gweithredu eraill yr hoffech weld Llywodraeth Cymru yn eu cymryd er mwyn gwneud gofal dibreswyl yn gynaliadwy i'r dyfodol.

## Arall

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall effaith y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Nodweddion gwarchodedig yw: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd a chred; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol.

**4. Pa effaith ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn ei chael ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Disgrifiwch nhw.**

**5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r cynigion a godir yn yr ymgynghoriad hwn nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod i ni amdanynt.**

Gallai ymatebion i ymgynghoriadau fod ar gael yn gyhoeddus ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i'ch ateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐